**Beirniadaeth Cystadleuaeth 312 - Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.7, 8 a 9**

**Beirniad: Catrin Angharad Jones**

**CYNTAF**

**Ffugenw: Y BOCHDAW GLAS**

**Teitl y darn: Y Gwanwyn**

Y mae yma le i ganmol y cyfansoddwr am gyflwyno geiriau, sgôr, recordiad o'r darn a chefndir y darn a'r broses gyfansoddi.

Yn amlwg, y mae'r cyfansoddwr ar gychwyn y daith o arbrofi a chreu alawon ac mae ganddynt beth ddealltwriaeth o ffurfiau a phatrymau cerddorol a'r elfennau cerddorol megis traw, cyweirnod, dynameg, gwead a'r holl bethau hynny sydd i'w hystyried wrth gyfansoddi cân ganadwy a chofiadwy.

Teimlais fod symlrwydd y cyfeiliant yn gweddu'n addas i natur di-ffws, werinol ei naws y brif alaw gyda'r ffidl yn ychwanegiad da yn hytrach na'n darfiad (sef maen tramgwydd ambell un yn y gystadleuaeth.)

Er yn syml, roedd digon o amrywiaeth yn yr offeryniaeth, y ddynameg a'r amseriad i gadw diddordeb a theimlais fod yma ystyriaeth wedi bod i strwythr y gân a arweiniodd at gyfanwaith soniarus oedd yn cyfleu gobaith y Gwanwyn.

Ewch ati i ymarfer, arbrofi a mireinio eich sgiliau cysodi cerddoriaeth gan weithio ar greu sgôr sy'n cynnwys nodau a geiriau yr alaw a'r offerynnau cyfeilio yn ogystal.

Llongyfarchiadau a dalier ati!

**AIL**

**Ffugenw: MR MORLO**

**Teitl y gân: Galedffrwd**

Dyma ymgais amlwg i gyfansoddi cân/unawd gyfoes a dramatig ei naws!

Rhaid canmol y cyfansoddwr am yr ymdrech ac am arbrofi.

Mae'r cyfansoddwr yn arddangos y gallu i ddefnyddio meddalwedd cyfansoddi ac wedi llwyddo i gyflwyno sgôr gydag ystyriaeth i nifer o elfennau cerddorol e.e. amrywiaeth o ddynameg a tempo, technegau chwarae megis acenion, ac mae'n dangos peth dealltwriaeth o gyweirnod a harmoni.

Rhaid canmol dewrder y cyfansoddwr hefyd yn dewis ffidl a perc. yn gyfeiliant ac mae'n arddangos ambell egin o sut i ddefnyddio gwahanol dechnegau a phatrymau cerddorol ar yr offerynnau hyn i gyfleu naws benodol a lliw.

Roedd y dewis o eiriau yn heriol. Er yn cynnig digon o gyfleoedd i gael amrywiaeth cerddorol ddiddorol, nid yw'r gerdd yn cynnig ei hun i drosi'n naturiol i alaw gerddorol fel y buasai cerdd mwy strwthredig gydag odl o bosib.

Teimlais fod y cyfansoddwr wedi colli mymryn ar bwrpas cyfansoddi cân - sef iddi fod yn ganadwy ac i ddiddanu. Roedd newid yr amseriad 18 o weithiau mewn darn 56 bar o hyd yn tarfu ar lif y darn a

chwestiynaf yn ogystal y gliss lleisiol a’r ffordd y mae rhythmau ambell air neu frawddeg wedi’w gosod.

Peidiwch a theimlo fod angen chwydu popeth i un darn er mwyn arddangos eich sgiliau a dawn. Mae cryfder mewn symlrwydd, alaw gryf ac adeiladwaith, a gwead addas yn yr offerynnau sy’n cyfeilio i atgyfnerthu’r canu.

Mae yma yn amlwg angerdd at gyfansoddi - awgrymaf eich bod yn dal ati i fireinio eich dawn cyfansoddi a chysodi sgôr gan gychwyn trwy feistroli caneuon ychydig symlach a mwy canadwy cyn mynd ati i gyfansoddi’n fwy abstract.

Daliwch ati a diolch o galon am gystadlu!

**TRYDYDD**

**Ffugenw: TWYLLODRUS**

**Teitl y darn: Gelert**

Dyma thema sy’n cynnig ei hun yn naturiol i gân - drama a loes Gelert y ci dewr a ffyddlon - dewis da.

Mae’r cyfansoddwr yn amlwg ar gychwyn y daith o arbrofi a dysgu sut i ddefnyddio meddalwedd cyfansoddi a chysodi sgôr - dal ati.

Y mae yma beth dealltwriaeth o beth sy’n gwneud strwythr cân effeithiol sef penillion a chytgan ac mae’r cyfansoddwr yn parchu’r grefft o ailadrodd yr un alaw i’r gytgan sy’n gymorth i greu cân gofiadwy a chanadwy.

Mae angen dal ati yma i feithrin sgiliau cyfansoddi sylfaenol gan gychwyn trwy:-

- Ddewis geiriau addas a chywir sy’n cynnwys patrwm pendant

- Canfod ble mae’r pwyslais yn disgyn yn y geiriau a dewis patrymau rhythm cerddorol sy’n gweddi a llifo.

- Gweithio i greu alawon adeiladol o fewn cordiau’r cyweirnod heb fynd i or-gymhlethu.

Gydag ymarfer ac arweiniad, rwy’n ffyddiog y bydd y cyfansoddwr yn datblygu eu crefft ac yn dod yn feistr ar greu alawon canadwy, cyflwyno amrywiaeth yn y d8dynameg a’r cordio ac yn parhau i fwynhau cyfansoddi.

Dalier ati a diolch am gystadlu